



Y Bont

Cylchgrawn Eglwys Seilo Caernarfon

Rhagfyr 2014
Ion/Chwe
2015
Rhifyn 212

www.henaduriaetharfon.org

Oedfaon y Sul, y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd

- 7 Rhagfyr - Sul Cyntaf yr Adfent - Bore: **Gweinidog**; Hwyr (4pm): **Uno yn Salem**.
- 14 Rhagfyr - Bore a Hwyr: **Y Parchg W H Pritchard** Bydd bocs Banc Bwyd yn y cyntedd.
- 21 Rhagfyr - Bore: **Dathlu'r Nadolig** - oedfa yng ngofal ieuenctid yr eglwys
Prynhawn (3pm): **Gwasanaeth Nadolig y Plant** gyda the parti i'r plant i ddilyn.
Gwneir casgliad at waith yr ysgol Sul ar derfyn yr oedfa. Bocs banc bwyd yn y cyntedd
- 24 Rhagfyr - **Noswyl Nadolig** (11.30pm): **Carol a Chymun**. Gwneir casgliad
- 25 Rhagfyr - **Oedfa fer Bore Nadolig** (9.30am)
Gwahoddir y plant i ddod ag un o'u hanrhegion i'r oedfa
- 28 Rhagfyr - Oedfa'r bore yn unig - **Y Parchg John Gwilym Jones**
- 4 Ionawr - Bore: **Gweinidog**. Gweinyddir y Sacramnt o |Fedydd a Swper yr Arglwydd
Gofynnir i'r plant fod yn bresennol yn oedfa'r bore. Hwyr (4pm): **Uno yn Salem**
- 11 Ionawr - Bore a Hwyr: **Y Parchg Cath Williams** Bydd bocs Banc Bwyd yn y cyntedd.
- 18 Ionawr - Bore: **Oedfa Undebol yn Ebeneser** i nodi yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol
- 25 Ionawr - Bore a Hwyr: **Y Parchg Gerallt Lloyd Evans**
- 1 Chwefror - Bore: **Miss Anna Jane Evans** Hwyr (4pm): **Uno yn Salem**
Bwrdd Gwerthu Masnach Dêg yn y cyntedd
- 8 Chwefror - Bore a Hwyr: **Y Parchg Gareth Edwards**. Bocs Banc Bwyd yn y cyntedd
- 15 Chwefror - Bore: **Gweinidog** Hwyr (4pm): **Uno yn Salem**. Oedfa Undebol
- 22 Chwefror - Bore a Hwyr: **Y Parchg Emlyn Richards**



Digwyddiadau

- Nos Lun 1 Rhagfyr (7.30pm): **Y Gymdeithas Lenyddol / Cymdeithas y Chwiorydd**
Noson o garolau dan ofal 'Clychau'r Grug'
- Nos Iau 4 Rhagfyr (6pm) Goleuo'r Goeden Nadolig ar y Maes
- Nos Fercher 7 Ionawr (7pm): **Cyfarfod Gweddi Dechrau Blwyddyn** yn Feed my Lambs
- Nos Lun 12 Ionawr (7pm) **Cymdeithas Chwiorydd Seilo** - oedfa dechrau blwyddyn yng nghwmni
y Parchg Eric Jones
- Nos Lun 19 Ionawr (7.30 pm) **Y Gymdeithas Lenyddol**: Brethyn Cartref
- Nos Lun 2 Chwefror (7.30 pm) **Y Gymdeithas Lenyddol**: y Prifardd Meirion MacIntyre Hughes
- Nos Lun 9 Chwefror (7pm) **Cymdeithas Chwiorydd Seilo**. Sgwrs gan John Grisdale

Taro Mewn - bob bore Mawrth yn Salem (10 -11am)

Seiat - bob bore Mercher (10am)

Y Gell Weddi - bob dydd Iau (10.30am)

Am Eiliad

Nos Iau, 6 Rhagfyr, oedd noson goleuo'r goeden Nadolig ar y Maes yng Nghaernarfon. Ers blynyddoedd bellach mae'r Cyngor Tref wedi cydweithio â'r Cyngor Eglwysi gan gyfuno'r arferiad o gyflwyno Stori'r Geni ar y Maes â'r weithred o oleuo'r goeden, a doedd eleni ddim yn eithriad i hynny. Ond, nid y goeden na'r ddrama oedd y prif atyniad ar y Maes eleni, ond yn hytrach lori fawr goch Cocoa Cola. Denwyd miloedd i'r Maes y noson honno, ac yn sicr bu sawl caffi a siop ar ei helw o'r herwydd. Da o beth oedd hynny, ond gyda pheth siom y darllenais ddyfyniad gan un o drefnwyr y noson yn y papur dyddiol trannoeth y digwyddiad: 'It's what Christmas is all about... you know its only round the corner when the cocoa cola truck comes..'

Mae gen i sawl cerdyn post yn y tŷ, yn dyddio o ddechrau'r ganrif ddiwethaf, yn dangos Maes Caernarfon dan ei sang wrth i bobl dyrru yno i wrando ar Lloyd George neu i groesawu milwyr yn ôl o'r rhyfel. Gallaf gydymdeimlo â hynny. Ond peth arall yw sylweddoli fod pobl wedi teithio o bellter, hyd yn oed wedi llogi bysiau, i ddod i Gaernarfon i weld lori Cocoa Cola! Roedd y ffyrdd i mewn i'r dre o bob cyfeiriad wedi cloi dan bwysau traffig trwm a'r palmentydd yn orlawn o deuluoedd ar eu ffordd i weld rhyfeddod y lori goch! Bu pobl yn ciwio am ymhell dros awr i gael tynnu llun y lori - a hynny am bris penodol. Yn sicr nid 'newyddion da o lawenydd mawr' a ddenodd y tyrfaoedd i Dre'r Cofis y nos Iau honno, ond yn hytrach gwahoddiad un o gwmnïau masnachol mawr y byd i brynu mwy o'u cynnyrch.

Ar yr un noson, mewn cornel fach o'r Maes gwelwyd Stori Fawr y Geni ym Methlehem yn cael ei llwyfanu'n syml a phrydferth gan aelodau eglwysi'r dre'. Elis, Huw a Gwyn oedd y tri gŵr doeth. Roedd yno ful bach, a defaid i fod, ond iddynt fethu cyrraedd mewn pryd oherwydd y traffig. Arferai'r cyflwyniad ddigwydd yng nghanol y Maes, ond oherwydd presenoldeb y lori goch a'r dyrfa enfawr, fe'i gwthiwyd i'r cyrion. Y canlyniad oedd mai canran fach iawn o'r rhai oedd yn bresennol ar y noson honno a sylwodd ar Joseff a Mair, y doethion a'r bugeiliaid a'r mul bach.

Ac mae'n debyg mai canran fach o boblogaeth Cymru eleni fydd yn dathlu penblwydd y baban bach a aned yn Waredwr y Byd. Roedd y digwyddiad ar y Maes yn adlewyrchiad cywir o le'r eglwys yn y gymdeithas yn yr unfed ganrif ar hugain. Cwestiwn ar raglen gwis yn ddiweddar oedd 'beth oedd enw dyweddi y Forwyn Fair?' Doedd gan y gŵr ddim syniad. A pha ryfedd gan fod cyn lleied o blant yn mynychu ysgol Sul, a chan nad oes gwarant eu bod yn clywed y Stori mewn ysgol nac ar aelwyd. Roeddwn yn chwilio am gerdyn Nadolig Cymraeg â llun stori'r Geni arno yn ddiweddar; bûm mewn tair siop a welais i yr un!

Ond er gwaetha'r cyfan oll, byddwn ni yma yn Seilo, fel mewn miloedd o eglwysi ar draws y byd, yn teithio unwaith eto tua Bethlehem, a hynny yn sŵn y llithoedd a'r carolau, ac yng nghwmni'r plant wedi'u gwisgo fel doethion a bugeiliaid ac angylion. Clywn eto yr hen hen stori am faban bach a aned yn Waredwr y Byd.

Dymunaf Nadolig llawen iawn i chi i gyd a Blwyddyn Newydd ddedwydd.

Gwenda Richards

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddiffuant â **Griffith Wyn Griffith**, 72 Cae Mur, yn ei brofedigaeth o golli ei frawd. Dymunwn nerth a thangnefedd Duw iddo ef a'r teulu yn eu galar a'u hiraeth.

Gwaeledd

Anfonwn ein cofion at bawb a fu'n wael yn ystod y mis. Treuliodd **Mrs Gwenda Williams**, 1 Bryn Rhos a **Mrs Prytherch Jones**, 8 Ffordd Glascoed, gyfnod yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Dymunwn wellhad llwyr a buan i'r ddwy ohonynt.

Blodau'r Cysegr

Diolch i'r chwirydd canlynol am eu parodrwyd i drefnu blodau yn y capel yn ystod Suliau'r mis. **Mrs Olwen Hughes** (7); **Miss Dorothy Williams** (14); **Mrs Jan Jones** (21 a 28)

Mae rhestr blodau 2015 yng nghyntedd Seilo. Apelir arnoch i'w llenwi mor fuan â phosib, er mwyn sicrhau y bydd rhestr lawn yn yn ymddangos yn Adroddiad y capel.

Os bydd rhywun yn dymuno cyflwyno'r blodau a osodwyd yn y capel i aelod o'r eglwys ar derfyn y Sul, a wnewch chi hysbysu'r gweinidog neu Mrs Glenys Trainor o hynny, os gwelwch yn dda.

Dosbarth Derbyn

Bydd yr ieuenctid a fu'n mynychu'r Dosbarth Derbyn yn ddiweddar yn cael eu derbyn yn gyflawn aelodau o'r

eglwys ar Ddydd Gŵyl Dewi 2015. Edrychwn ymlaen at hynny.

Taffi Triog

Bydd ychydig o daffi triog (y gweinidog!) ar werth yng nghyntedd Seilo ar derfyn yr oedfa bore Sul 14 Rhagfyr. Ei bris fydd £1.50 (100g) neu £2.50 (150g mewn tin. Mae ychydig o'r rhain ar ôl). Bydd yr arian yn mynd at Apêl Ysbyty Dr Gordon Roberts, Shillong. Gellwch archebu taffi trwy ffonio'r gweinidog (676435) Cofiwch gadw'r taffi yn yr oergell!

Y Gymdeithas Lenyddol

Fis Hydref daeth Radio Cymru i recordio *Galwad Cynnar*. Iolo Thomas gyflwynodd y Cadeirydd, Gerallt Pennant a'r panelwyr - Bethan Wyn Jones, John Glyn a Iolo Williams.

Gofynnodd y Parch. Gwenda Richards pam fod haid o frain wedi ymosod ar golomen wen ac roedd Beryl Roberts wedi gweld brain yn ymosod ar fwncath. Roedd yn cwestiynnu hefyd os oedd angen bwydo a gwarchod adar fel y barcud coch, gan fod cymaint ohonynt yn y gwyllt erbyn hyn. Holodd plant Bodafon oedd hi'n iawn i fwydo'u cwningen efo blodau wedi marw o'r ardd. Cafodd Iolo Thomas wybod sut i dyfu riwbob a Dr Huw yn cael ei annog i fwydo ei domatos yn well. Siawns na fydd digonedd o'r ffrwythau yma ar stondin Seilo ar y Maes y tro nesaf!

Cafodd Wil Davies dipyn o sioc pan ymddangosodd blodau mawr ar hen blanhigyn am y tro cyntaf. Ac roedd Rhiannon Owen yn methu deall pam mai 4 o flagur yn unig oedd ar ei llwyn rhododendron. Ofnai Hywel Roberts fod coed yn mynd yn bla yng Nghymru gan nad oes bosibl gweld ein hafonydd

na'n golygfeydd mwyach. Ond daw un peth da o goed sef concyrs gan eu bod yn cadw pryfaid cop o'r tŷ! Diflannodd holl bysgod aur Y Parch Harri Parri am tua deufis eleni. Lle buon nhw? Daeth Elwyn Griffiths o Gapel Salem atom i ofyn pam fod yr eogiaid wedi diflannu'n llwyr o'r Seiont. Bydd digon o jeli llyffant yn y pyllau y flwyddyn nesa reit siŵr, ond cwestiwn Anwen ac Ellis Jones oedd – pryd fydd y llyffant yn dodwy'r grifft? Gwelodd dau o'r gynulleidfa wiwerod coch yn yr ardal. Sut cawn ni fwy yn Arfon? Wel, lladd y wiwerod llwyd i gyd! Y cwestiwn anfonwyd gan E Rolant Jones gafodd y sylw mwyaf, “Faint o flew sydd ar gynffon cath?”

Margaret Wyn Roberts

Y Ffair Nadolig

Fel y gŵyr pawb ohonoch a ddaeth i'r Ffair bnawn Dydd Iau, Tachwedd 13^{eg} cafwyd diwrnod arbennig o brysur a llwyddiannus eto eleni. Roedd tyrfa wedi ymgasglu cyn amser agor y drysau am 1 o'r gloch, ac 'roedd golygfa gwerth chweil yn eu haros, gyda phob bwrdd gwerthu yn orlawn o nwyddau o safon uchel - y cacennau, jam a chutneys, y cynnyrch gardd, y cardiau cyfarch del, y tombola a'r gemau dyfalu, a'r byrddau fel newydd a'r bric-a-brac.

Ar ran Pwyllgor Gwaith y Merched hoffem ddiolch o galon i bawb a weithiodd mor galed er sicrhau'r fath arlwy llwyddiannus. Yn wir, bu ambell aelod, sy'n haeddu cael eu henwi, wrthi'n ddiwyd am wythnosau yn paratoi at y Ffair. Roedd stonidin grefftau Sioned, gwaith gwau hyfryd June, dwsinau o focsys anrhegion lliwgar yn cynnwys jam, pwdinau a chacennau Nadolig a baratowyd yn

Ffatri Plas Bach (!) gan y gweinidog, y Parch Gwenda Richards, yn dyst i oriau maith o lafur cariad diflino ein haelodau. Erbyn diwedd y Ffair, roedd gwên o glust i glust ar wynebau'r Trysoryddion, Gwenifer ac Elizabeth, a pha ryfedd! Llwyddwyd i godi'r swm anrhydeddus iawn o £4,775.22, gyda pheth rhoddion yn dal i ddod i'r coffrau. Bydd cyfran o'r elw eleni yn mynd at Gymdeithas Clefyd Alzheimer's. Diolch o galon i bawb a gefnogodd y Ffair mewn unrhyw ffordd. Diolch arbennig i holl aelodau'r Pwyllgor Gwaith am eu gwaith caled yn paratoi at y Ffair ac at yr holl weithgareddau eraill yn ystod y flwyddyn. Bu cyd-weithio hapus rhwng pawb unwaith eto eleni.

Beryl (Cadeirydd) Edwina (Ysgrifennydd)

Cymdeithas y Chwiorydd

Tachwedd 10^{fed} daeth tyrfa luosog ynghyd. Llywydd y noson oedd Mrs Sioned Clwyd Jones. Cyflwynodd y siaradwraig wadd Miss Eirian Pritchard a dreuliodd ei gyrfa fel athrawes yn Ysgol Bontnewydd gan ddod yn Bennaeth yno maes o law. Testun ei sgwrs oedd Crefftau Nadolig. Cawsom wledd i'r llygad wrth weld yr holl amrywiaeth addurniadau a nwyddau a ddarparwyd ganddi. Yn ei harddull gartrefol eglurodd sut yr aeth ati i wneud yr addurniadau syml. Gwelsom gardiau Nadolig yn cynnwys gwaith croesbwyth cain, anrhegion wedi'u gwnio megis bagiau lafant, ffedogau, basgedi, matiau bwrdd, baneri Nadolig Llawen, clustogau chwaethus wedi'u haddurno'n gywrain. Amlygodd ffrwyth ei llafur amynedd ac oriau lawer o waith. Cafwyd cyfle i holi cwestiynau a mwynhau paned. Diolchwyd i Eirian gan y llywydd.